# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 16eg Gorffennaf, 2024 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
| --- | --- |
| County Councillor (Chairman)<br>County Councillor (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: Jill Bond, Rachel Buckler, Meirion Howells, Alistair Neill, Paul Pavia, Peter Strong and Ben Callard | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy<br>Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad<br>Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid |

**APOLOGIES:** Councillors John Crook, Catherine Fookes and Ann Webb

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim.

3. **Hunan-asesiad**

   Cyflwynodd Richard Jones a Hannah Carter yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Peter Davies a Will Mclean..

   **Pwyntiau allweddol gan Aelodau:**

   - Gofynnodd Aelodau am fwy o fanylion ar y strategaethau penodol a weithredir i fynd i'r afael â phwysau ariannol a sut y bydd y strategaeth ariannol tymor canolig yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor heb or-ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn.
   - Gofynnodd Aelodau sut mae'r cyngor yn bwriadu cyflawni ei dargedau sero net, a pha gamau a gymerir i sicrhau y buddsoddiad cyhoeddus angenrheidiol i gefnogi'r cynlluniau amgylcheddol.
   - Gofynnwyd i swyddogion pa fesurau a gaiff eu rhoi ar waith i wella presenoldeb mewn ysgolion a chefnogi dysgwyr bregus a sut mae'r cyngor yn mynd i'r afael ag anghenion ymadawyr gofal i atal digartrefedd.

- Yng nghyswllt newidiadau a wnaed, holodd Aelodau os oes gymaint o ymgynghori ag sydd modd gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid er mwyn mabwysiadu'r newidiadau a gweithredu syniadau newydd yn y ffordd orau.
- Gofynnwyd am fanylion pellach am y gostyngiad mewn defnydd trenau.
- Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ar y cynnydd yn nifer yr achosion o drais a gwaharddiadau ysgol. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad fod y cyngor yn gwneud popeth posibl i sicrhau fod ysgolion yn cofnodi digwyddiadau o ymosodiad rhywiol yn gywir ac yn datblygu strategaethau i'w trin.
- Gofynnodd Aelodau am wybodaeth bellach am i'r cyngor fod â'r gwariant refeniw gros isaf y pen yng Nghymru yn 22/23.
- Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael data cymharu pellach wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb heblaw incwm e.e. anghydraddoldeb oedran.
- Cafodd staff ac aelodau eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant Llythrennedd Carbon.
- Gofynnwyd am eglurhad am rai o graffiau'r adroddiad a nodwyd y byddai data ar deithiau bws a theithio llesol eraill yn ddefnyddiol yn ogystal â cheir a rheilffyrdd.
- Gofynnodd Aelodau os oes gan adroddiadau gan reoleiddwyr, tebyg i adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, ddylanwad ar y sgorau cyffredinol a roddwyd ac os yr ystyriwyd gweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Nododd y Cadeirydd fod adnabod meysydd sydd angen eu gwella, a'r datrysiadau sydd eu hangen, yn hybu hygrededd hunanasesiad ac y gellid cynnwys hwn mewn adroddiadau gwasanaeth.
- Holodd Aelodau pa mor aml ac i ba raddau y defnyddir gwybodaeth perfformiad yn ein gwasanaethau i hybu gwella perfformiad.
- Yng nghyswllt trawsnewid gwasanaethau i ateb heriau'r gyllideb, dywedodd y pwyllgor ei bod yn anodd dod o hyd i dystiolaeth o adolygiad perfformiad neu asesiad o drawsnewidiadau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, a gofynnwyd pam, gan nodi pwysigrwydd cadw golwg agos ar unrhyw newidiadau sylweddol.

Ymatebodd y Swyddogion oedd yn bresennol i'r holl gwestiynau a godwyd a roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r ymatebion a gafwyd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a diolchodd i'r swyddogion am y manylion ac am fod wedi cynnwys cymariaethau Cymru-gyfan, er y nododd y gellid gwneud mwy eto yn y cyswllt hwnnw er mwyn rhoi darlun llawnach o berfformiad. Roedd hefyd yn falch y cafodd mwy o adborth defnyddwyr gwasanaeth, fel y gofynnwyd amdano yn flaeorol. Cynigiwyd yr adroddiad.

**<u>CAMAU GWEITHREDU:</u>**

Awgrymodd Aelodau wneud newidiadau i gamgymeriadau tebyg i dargedau sydd ar goll a phethau eraill a adawyd allan. Anfonir rhestr o'r rhain at swyddogion yn ogystal â newid byrfoddau i Saesneg fwy ffurfiol.

Y prif feysydd ar gyfer craffu pellach a ddynodwyd gan aelodau oedd sefydlogrwydd ariannol hirdymor, digartrefedd ac ymadawyr gofal, sefydlogrwydd amgylcheddol a monitro newid a thrawsnewid yng ngwasanaethau cyngor. Nodwyd fod y cyntaf mewn llaw gydag eitemau eisoes ar raglen waith y pwyllgor a chaiff yr ail sylw gan y Pwyllgor Pobl ar 17 Gorffennaf. Mae/Caiff y trydydd maes sylw gan y Pwyllgor Lle, a bydd swyddogion craffu yn symud ymlaen â'r pedwerydd maes.

**4. <u>ADRODDIAD DIWEDDARIAD ARIANNOL 2023/24 a 2024/25</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Ben Callard ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Peter Davies, Jonathan Davies a Will Mclean.

**Pwyntiau allweddol gan Aelodau:**

- Gofynnodd aelodau pa fesurau penodol sy'n cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r risgiau ariannol parhaus mewn gwahanol feysydd tebyg i Ofal Cymdeithasol Oedolion a pha gamau a gymerir i sicrhau y caiff gorwariant ei drin yn brydlon.
- Gofynnwyd cwestiynau pa fesurau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i wella effeithiolrwydd a gostwg gorwariant mewn meysydd allweddol, ac os yw cynlluniau wrth gefn yn cael eu datblygu i drin costau annisgwyl.
- Holodd aelodau os yr ymgysylltir â staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddynodi arbedion posibl, ac os oes cynlluniau yn eu lle i ailddyrannu gwasanaethau o feysydd lle mae tanwariant i rai lle mae gorwariant.
- Gofynnodd aelodau os yw swyddi gwag yn rhoi pwysau ar y staff presennol, ac os oes problemau o'r herwydd gyda llesiant neu gyda chadw staff. Ymhellach, gofynnwyd os cafodd swyddi gwag effaith ar ddarparu gwasanaethau i breswylwyr.
- Gofynnwyd am fanylion pellach am reoli tasgau mewn gwasanaethau a'r lle gorau i ffitio adnoddau.
- Yng nghyswllt prinder staff, gofynnwyd os oes unrhyw feysydd gwasanaeth yn cyrraedd pwynt critigol yn eu gallu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- Holodd Aelodau hefyd am y disgwyliad presennol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda 70% o'i dargedau arbedion wedi eu cyrraedd ac os oes angen mwy o ailddylunio gwasanaeth. Mynegodd aelodau bryder am i ba raddau y caiff y gorwariant mewn gofal cymdeithasol ei drin.
- Gofynnodd y Pwyllgor os gallai gael diweddariad ar sefyllfa'r 13 ysgol sydd mewn diffyg, lleoedd gwag ac os yw cwmnïau sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw yn cael eu monitro i sicrhau gwerth am arian.
- Gofynnwyd cwestiynau os yw partneriaid iechyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithlon yn nhermau gofal iechyd parhaus a beth fwy y gellid ei wneud i sicrhau fod uchelgais a gaiff ei rannu ar gyfer y gwasanaethau a ddarparant.
- Gofynnwyd os yw costau gofal yn dal i fod yn uchel oherwydd oedi mewn talu neu achosion gwirioneddol o galedi, a pha fesurau gaiff eu rhoi ar waith i gynyddu y nifer sy'n defnyddio atyniadau tebyg i Theatr y Borough.
- Gofynnodd aelodau os oedd diweddariad ar unedau a osodir ym Mharc Hamdden Casnewydd a Castle Gate.
- Gofynnodd aelodau i ba raddau yr ydym yn ddibynnol ar grantiau tymor byr a lefel ansicrwydd sy'n gysylltiedig â nhw.
- Gofynnwyd am eglurder am lefel y newid sylweddol sydd ei angen, fel yr adroddwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a beth gaiff ei wneud i ddod â chostau dan reolaeth.
- Gofynnodd aelodau sut mae'r tanwariant mewn cynlluniau strategol yn gwrthbwyso'r gorwariant o £4m.
- Mynegwyd pryder y bydd y rhan fwyaf (£12.2m) o'r diffyg a ragwelir yng nghyfnod 24-29 yn digwydd y flwyddyn nesaf.
- Gofynnwyd am fwy o fanylion am y rhesymau am lithro mewn prosiectau seilwaith allweddol.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r ymatebion a roddwyd gan yr Aelod Cabinet a'r swyddogion oedd yn bresennol.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am yr adroddiad. Mae'r pwyllgor yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r cyngor ac yn deall na fydd datrysiad ar unwaith. Cynigiwyd yr adroddiad.

5. **Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg**

Atgoffwyd Aelodau fod gwahoddiad iddynt fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Pobl ar 23 Gorffennaf lle byddir yn craffu ar adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru a'r polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol.

6. **Cynllunydd y Cabinet a'r Cyngor**

7. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2024**

Cadarnhawyd y cofnodion.

8. **Cyfarfod Nesaf: 23ain Medi 2024 am 10.00am**

23 Medi 2024 am 10.00am.

The meeting ended at **12.26 pm**